

ADRODDIAD YSGOL EIFIONYDD

EBRILL 2016



Hwb+

Ar ddechrau mis Medi dechreuodd Martin Lewis a Glenda Jones gyda CYNNAL fel Cefnogwyr Hwb+ / Llythrennedd Digidol. Eu prif gyfrifoldebau yw hyrwyddo'r defnydd o Hwb+, sicrhau fod Hwb+ yn cyfrannu at wella llythrennedd a sgiliau a hyrwyddo e-ddiogelwch. Mae Huw Lewis AC Gweinidog Addysg a Sgiliau, wedi cadarnhau ymrwymiad cyllidol i Hwb+ gan Lywodraeth Cymru hyd at Awst 2018.

Mae Hwb+ yn adnodd ardderchog sy'n cynnig llu o bosibiliadau i ddisgyblion. Gall Hwb+ gynnig rhaglenni megis Windows 360, taenlen graffio Excel, Word a PowerPoint am ddim. Bydd mynediad rhad ac am ddim yn hynod fanteisiol i holl ddisgyblion yr ysgol. Mae hyn yn golygu na fydd angen i rieni brynu pecynnau megis Microsoft Office er mwyn i blant wneud eu gwaith cartref. Gobeithir y bydd y disgyblion yn manteisio ac yn elwa ar y cyfleoedd gwybch mae Hwb+ yn eu cynnig.

Penodi Staff

Longyfarchiadau calonnog i Mrs. Lyn Parry Hughes a Mrs. Gwyneth Owen ar eu hapwyntio yn Benaethiaid Cynorthwyol parhaol Ysgol Eifionydd. Mae'r ddwy wedi bod yn dysgu yn yr ysgol ers blynyddoedd lawer ac maent wedi bod yn cyflawni dyletswyddau'r swydd ers mis Medi. Testun balchder mawr yw gwybod y bydd Uwch Dîm Rheoli parhaol yn arwain yr ysgol o hyn ymlaen. Dymuniadau gorau i'r ddwy.

Longyfarchiadau mawr i Mr. Gareth Patchett swydd wedi ei benodi yn athro Ymarfer Corff yn yr ysgol. Mae Mr. Patchett yn dysgu yn Ysgol David Hughes ar hyn o bryd a bydd yn dechrau ei swydd yn Ysgol Eifionydd ym mis Medi. Dymuniadau gorau iddo.

Ymddeoliad

Ddiwedd y tymor ffarweliwyd â Mrs. Pat Willams, aelod gwerthfawr o staff swyddfa'r ysgol. Fel y gŵyr llawer mae Pat wedi bod yn hynod boblogaidd gyda staff a disgyblion fel ei gilydd. Yn wir, roedd yr holl gyfarchion, cardiau ac anrhegion yn dyst i'w phoblogrwydd ac yn goron ar y cwbl roedd cacen ymddeoliad arbennig wedi ei gwneud gan Mrs. Brenda Dobson. Ymddeoliad hir a hapus iawn i chi Pat a diolch o galon am bob dim.



Sesiynau Adolygu

Yn ystod wythnos olaf y tymor cynhaliwyd sesiynau adolygu Pet-Xi High 5 Saesneg ar gyfer disgyblion BL.11 ysgolion Eifionydd, Ardudwy a Glan y Môr. Bwriad y sesiynau yw rhoi hwb i'r disgyblion cyn eu arholiadau TGAU yn yr Haf . Roedd athro a dau gymhorthydd yn cefnogi y disgyblion yn y sesiynau adolygu dwys yma. Yn ystod gwyliau'r Pasg cynhaliwyd sesiynau adolygu Mathemateg yn yr ysgol ar gyfer disgyblion ysgolion Ardudwy ac Eifionydd. Gobeithio'n fawr y bydd y plant yn elwa'n arw o'r sesiynau yma. Yn sicr, fe gafwyd adborth positif a ffafriol iawn gan y disgyblion.



Diwrnod di-wisg ysgol

Yn ôl yr arfer cafodd y disgyblion gyfle i gael diwrnod di-wisg ysgol ar ddiwrnod olaf y tymor, gyda pob disgybl yn talu punt am y fraint. Casglwyd £282.00

Urdd

Llongyfarchiadau mawr i'r canlynol ar eu llwyddiant yn Adran Celf a Chrefft Urdd Gobaith Cymru, Rhanbarth Eryri.

Gwaith Lluniadu 2D BL.7, 8 a 9

Erin Wyn Williams 3ydd

Gwaith Creadigol 3D BL. 7,8 a 9 (Unigol neu Grŵp)

Cadi Haf Thomas 2il

Dyluniad 2D BL.7-9

Cadi Haf Thomas 2il

Erin Wyn Williams 3ydd

Gemwaith BL.7,8 a 9

Cadi Haf Thomas 3ydd

Cynhaliwyd Eisteddfod yr Urdd Rhanbarthol ar gyfer disgyblion hŷn yn Ysgol Dyffryn Ogwen ar Fawrth 11eg. Llongyfarchiadau i bawb o'r ysgol sy'n aelodau o Aelwyd Chwilog ar eu llwyddiant ac i Erin wrth gystadlu'n unigol.

Llefaru Bl.10 ac o dan 19oed.

Erin Dwyfor Parry 3ydd

Dosbarthiadau Meistr

Yn ystod Tymor y Gwanwyn mae tri o ddisgyblion Bl.9, sef Lleucu Lane, Gwion Jones a Lily-Arwen Hughes-Moore wedi bod yn mynychu dosbarthiadau meistr Mathemateg ym Mhrifysgol Bangor. Llongyfarchiadau i'r tri a phob dymuniad da iddynt yn y dyfodol.

Cyngerdd

Nos Fercher, Mawrth 23ain cynhaliwyd cyngerdd yn neuadd yr ysgol. Cymerwyd rhan gan nifer o ddisgyblion. Bu Seimon Griffith, Huw Gwyn, Jamie Knight ac Awen Puw yn cymryd rhan yn y band dan arweiniad Mr. John Glyn Jones. Chwarae unawd ar y Delyn fu Gwenan Puw, bu Nel Evans yn canu unawd a bu Anest Edwards yn chwarae deuawd ar y piano gyda Miss. Lona Williams, athrawes Gerdd yr ysgol. Da iawn chi i gyd am wneud mor dda.

Rygbi

Llongyfarchiadau mawr i dîm rygbi bechgyn Bl.7 ac 8 ar eu llwyddiant ysgubol yn curo tîm Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch o 53 i ddim. Da iawn chi hogia a daliwch ati!